

POLISI PREIFATRWYDD

CYNADLEDDAU A DIGWYDDIADAU PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Fersiwn 1

Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn disgrifio'r ffyrdd y mae'r Swyddfa Gynadleddau yn casglu ac yn defnyddio eich data personol ar gyfer archebion a digwyddiadau ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Eich cyfrifoldeb chi yw adolygu a deall y Polisi Preifatrwydd hwn cyn rhoi eich data personol i ni. Rhaid ichi hefyd adolygu ein [Telerau ac Amodau](#). Os nad ydych yn cytuno â'r Polisi Preifatrwydd a/neu'r Telerau ac Amodau, ni ddylech roi eich data personol i ni ac ni chewch ddefnyddio ein nwyddau na'n gwasanaethau.

Gall ein Polisi Preifatrwydd a'r Telerau ac Amodau hefyd newid o dro i dro. Pan fyddwn yn eu newid, bydd y polisiau a addaswyd yn cael eu postio ar ein gwefan ac yn effeithiol bryd hynny. Bob tro y newidir y wybodaeth, bydd rhif y fersiwn a ddangosir ar waelod y tudalen hefyd yn newid. Felly, bob tro y byddwch yn troi at ein gwasanaethau, neu'n eu defnyddio, neu fel arall yn ymgysylltu â ni, byddwch yn derbyn ac yn cytuno â'r Polisi Preifatrwydd a'r Telerau ac Amodau diweddaraf. Eich cyfrifoldeb chi yw bod yn ymwybodol o'r newidiadau hyn.

Casglu Data Personol

Er mwyn darparu ein nwyddau a'n gwasanaethau, rydym yn casglu ac yn prosesu data personol gan ein cwsmeriaid. Efallai y byddwn yn casglu gwybodaeth ("**Data Personol**") oddi wrthyh fel, ond heb fod wedi'i chyfyngu i, eich enw llawn, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post, rhif ffôn, dyddiad geni, rhyw, gwybodaeth ynglŷn â thalu, gwybodaeth am gyflogaeth. Nid oes raid ichi ddarparu'r holl Ddata Personol a restrir uchod, ond oni wnewch hynny, efallai na fyddwn yn gallu darparu ein nwyddau, gwasanaethau a gwybodaeth yn effeithiol ar eich cyfer. Dan rai amgylchiadau, gofynnir ichi gyflwyno categorïau penodol o Ddata Personol (yn cynnwys enw, cyfeiriad e-bost a gwybodaeth ynglŷn â thalu) er mwyn llunio contract gyda ni ac er mwyn i ni gyflawni amodau'r contract.

Mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 ac, ar ôl Mai 2018, â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Gweler yr adran "Defnyddio Gwybodaeth" isod ar gyfer rhagor o fanylion ynghylch y ffyrdd yr ydym yn defnyddio ac yn prosesu eich data personol.

Defnyddio Gwybodaeth

Gellir defnyddio eich Data Personol yn y ffyrdd canlynol:

- I ddarparu ein nwyddau a'n gwasanaethau i chi
- I gyfoethogi a gwella ein nwyddau a'n gwasanaethau, er enghraifft drwy wneud gwaith ymchwil mewnol
- I brosesu taliadau gennyh chi
- I brosesu taliadau i chi (yn cynnwys, ond heb fod wedi'u cyfyngu i, ad-daliadau)
- Dibenion mewnol, megis gweinyddu gwefannau a systemau neu archwiliadau ac adolygiadau mewnol
- I gyfathrebu â chi ynglŷn â nwyddau/gwasanaethau allai fod o ddiddordeb i chi
- I ymateb i'ch ceisiadau a'ch ymholiadau
- I ddarparu hysbysebion sy'n berthnasol i chi wrth ichi ymweld â'n safleoedd neu safleoedd trydydd parti eraill (yn cynnwys llwyfannau cyfryngau cymdeithasol)
- I ofyn i chi gymryd rhan mewn arolygon dewisol, grwpiau ffocws, neu fentrau eraill sy'n ein helpu i gasglu gwybodaeth a ddefnyddir i ddatblygu a gwella ein nwyddau a'n gwasanaethau.

Byddwn yn prosesu eich Data Personol ar gyfer y dibenion a nodir uchod ar sail y canlynol:

1. Lle bydd prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni ein contract i ddarparu ein nwyddau, gwasanaethau a gwybodaeth i chi, neu i gymryd camau cyn llunio contract (GDPR, Erthygl 6 (1) (b)).
2. Lle bydd prosesu yn angenrheidiol ar gyfer buddiannau cyfreithlon y Brifysgol o ran darparu a gwella ein nwyddau, gwasanaethau a gwybodaeth (GDPR, Erthygl 6 (1)(f) ac
3. Yn ôl yr angen er mwyn cydymffurfio â'r ymrwymïadau cyfreithiol y mae'r Brifysgol yn ddarostyngedig iddynt, i ddatrys anghydfodau a gorfodi cytundebau contractiol (GDPR, Erthygl 6 (1)).

Dylid nodi nad yw'r data hwn yn cael ei ddefnyddio gan brosesau gwneud penderfyniadau awtomatig ar hyn o bryd, ac nid yw'n cael ei drosglwyddo y tu allan i'r UE ar gyfer prosesu nac ar gyfer dibenion eraill.

Rhannu a Datgelu i Drydydd Partïon

Efallai y byddwn yn datgelu eich Data Personol i drydydd partïon dan yr amgylchiadau canlynol:

1. Rydych yn gwneud cais neu'n awdurdodi datgelu eich manylion personol i drydydd parti.
2. Caiff y wybodaeth ei datgelu yn unol â'r hyn a ganiateir drwy gyfraith/cyfreithiau perthnasol a/neu er mwyn cydymffurfio â chyfraith/cyfreithiau (er enghraifft, i gydymffurfio â gwarant chwilio, gwys tystiolaeth neu orchymyn llys).
3. Caiff y wybodaeth ei darparu i'n hasiantwyr, gwerthwyr neu ddarparwyr gwasanaeth sy'n cyflawni swyddogaethau ar ein rhan. Gweler isod am ragor o fanylion.

Gall enwau a chategoriâu'r trydydd partïon hyn newid yn ystod y cyfnod y byddwch yn ymgysylltu â ni.

Rhagwelir y bydd eich Data Personol yn cael ei ddatgelu i'r categorïau isod o ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti sy'n cyflawni swyddogaethau ar ein rhan. Gofynnwn i'n darparwyr gwasanaeth trydydd parti ddefnyddio eich Data Personol yn unig yn ôl yr angen ar gyfer darparu'r gwasanaethau angenrheidiol i ni a bod pob darparwr gwasanaeth yn ddarostyngedig i set o delerau sy'n gyson â'r Polisi Preifatrwydd hwn.

- Darparwyr storio gwybodaeth ar gyfer storio a throsglwyddo eich data yn ddiogel
- Darparwyr rheoli hunaniaeth ar gyfer dilysu
- Darparwyr meddalwedd bas-data ar gyfer rheoli a thracio eich data
- Ymgynghorwyr cyfreithiol a chydymffurfiaeth, megis cwnsleriaid allanol, archwilwyr allanol, neu ymgynghorwyr treth
- Darparwyr marchnata sy'n anfon deunydd cyfathrebu ar ein rhan sy'n ymwneud â'n nwyddau a'n gwasanaethau
- Darparwyr talu ar gyfer prosesu taliadau gennych chi yn ddiogel
- Cyflenwi a gwerthwyr post ar gyfer cyflenwi ein nwyddau a'n gwasanaethau

Dewisiadau Cyfathrebu

Gwnawn bob ymdrech i ddarparu gwybodaeth berthnasol a defnyddiol i chi ynglŷn â'n nwyddau a'n gwasanaethau a gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio'r wybodaeth a nodir ar waelod y polisi hwn i wneud unrhyw newidiadau i'ch dewisiadau cyfathrebu. Dim ond os yw'n ymwneud yn uniongyrchol â gwasanaethau neu nwyddau yr ydym yn eu cyflenwi neu'n bwriadu cyflenwi i chi, y byddwn yn cyfathrebu â chi'n electronig, neu os ydych wedi rhoi caniatâd i ni anfon gwybodaeth farchnata atom. Bydd unrhyw negeseuon e-bost hyrwyddo y byddwn yn eu hanfon atoch yn cynnwys dolen gyswllt ar waelod yr e-bost os dymunwch dad-danysgrifio.

Hawliau Gwrthrych Gwybodaeth/Defnyddwyr

Fel defnyddiwr, o dan y GDPR, rhoddir yr hawliau canlynol i chi:

- Yr hawl i gael gwybod am y defnydd o'ch Data Personol
- Yr hawl i gael mynediad at eich Data Personol
- Yr hawl i gael eich Data Personol wedi ei gywiro

- Yr hawl i gael eich Data Personol wedi ei ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu eich Data Personol
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Yr hawl i wrthwynebu prosesu
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffiliau yn awtomatig

Ceir rhagor o fanylion yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/dp/>

Yn amodol ar yr amgylchiadau, gallwch arfer unrhyw un o'r hawliau hyn drwy ddiweddarau eich gwybodaeth, neu drwy anfon cais ysgrifenedig at Reolwr Diogelu Data'r Brifysgol gan ddefnyddio'r manylion cysylltu a nodir isod:

Dr Jonathan Davies
Rheolwr Diogelu Data
Llyfrgell Hugh Owen
Prifysgol Aberystwyth
Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3DZ

infocompliance@aber.ac.uk

Manylion Cysylltu

Fe'ch anogir i roi gwybod i ni am unrhyw welliannau, awgrymiadau, neu amheuon o dramgwyddo modau preifatrwydd neu ddiogelwch drwy ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer cysylltu uchod neu fel arall drwy gysylltu â:

Kraig Pugh
Rheolwr Datblygu Busnes
Gwasanaethau'r Campws a Gwasanaethau Masnachol
Penbryn
Prifysgol Aberystwyth
Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BY

conferences@aber.ac.uk

Ffôn: 01970621960 E:conferences@aber.ac.uk W:www.aber.ac.uk/cy/visitors/ Dyddiad adolygu diwethaf: Ionawr 2018

